**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JMEWL/01566/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
Government.Committee.Business@llyw.cymru

28 Gorffennaf 2022

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 13 Gorffennaf yn tynnu fy sylw at Adroddiad Cymwysterau Cymru (*Canfyddiadau a phrofiadau o raddio yn haf 2021*), yng nghyd-destun Deiseb P-06-1228: Talu bonws i athrawon uwchradd am farcio a safoni asesiadau swyddogol haf 2021.

Fel y nodais yn fy llythyr dyddiedig 18 Tachwedd, roeddwn yn hynod ddiolchgar am waith caled ac ymroddiad yr holl athrawon a darlithwyr ledled Cymru ac roedd eu hymdrechion ar y cyd yn hanfodol i gefnogi'r gwaith o ddarparu graddau a bennwyd gan ganolfannau. Rwy'n parhau i fod yn ddiolchgar am eu hymrwymiad drwy gydol cyfres arholiadau'r haf 2022, yn enwedig yr arweiniad a'r gefnogaeth a roddwyd i'n dysgwyr wrth baratoi ar gyfer eu harholiadau.

Fel y mae Cymwysterau Cymru'n cadarnhau, comisiynwyd yr adroddiad '*Canfyddiadau a phrofiadau o raddio yn haf 2021*' i ystyried canfyddiadau a phrofiadau athrawon, darlithwyr a phenaethiaid canolfannau a oedd wedi bod yn ymwneud â marcio neu oruchwylio penderfyniadau graddio, ond nid oedd yn archwilio'r mater o gydnabyddiaeth ariannol, sef canolbwynt y ddeiseb.

Amlygodd yr adroddiad nifer o ganlyniadau cadarnhaol ac er fy mod yn ymwybodol bod rhai meysydd y gellid bod wedi'u gwella, roeddwn yn falch o nodi bod bron pob cyfranogwr yn teimlo bod eu rolau a'u cyfrifoldebau yn eglur drwy'r gydol y broses raddio a'u bod yn hyderus yn eu gallu i'w cyflawni. Un ffactor pwysig sy'n cyfrannu at hyn oedd bod y rhan fwyaf o gyfranogwyr yn ymwybodol o, ac wedi mynychu'r hyfforddiant ar y broses raddio a ddarparwyd gan eu canolfannau eu hunain. Roedd yn galonogol gweld bod tua hanner y cyfranogwyr yn ymwybodol o, ac wedi mynychu'r hyfforddiant a ddarparwyd gan CBAC a'u bod, ar y cyfan, yn teimlo bod yr hyfforddiant a ddarparwyd gan Cymwysterau Cymru a CBAC yn glir ac yn ddefnyddiol.  Roeddwn yn arbennig o falch bod hyn yn cynnwys rhagfarn ddiarwybod a safoni.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy’n cydnabod y rhan o’r adroddiad yn mynegi y dylai athrawon fod wedi cael eu talu am y gwaith/amser ychwanegol a dreuliwyd ar y broses raddio. Efallai y byddai'n ddefnyddiol pe bawn yn ail-esbonio’r dull a ddefnyddiwyd yng Nghymru, fel y nodwyd yn fy llythyr dyddiedig 18 Tachwedd.

I gydnabod rôl ehangach ysgolion a cholegau wrth gyflwyno graddau yr haf diwethaf, gostyngodd CBAC ei ffioedd 42% a wnaeth ryddhau £8 miliwn arall i ysgolion a cholegau. Yn ogystal â hyn, a chan gydnabod gwaith helaeth athrawon a darlithwyr, cyfrannodd Llywodraeth Cymru £1.6 miliwn ychwanegol i alluogi gostyngiad cyffredinol o 50% i ffioedd CBAC ar gyfer 2021. Rhyddhaodd hyn £9.6 miliwn o gyllid ychwanegol i ysgolion a cholegau, gyda'r hyblygrwydd i ddefnyddio'r cyllid hwnnw i ddiwallu eu hanghenion a'u hamgylchiadau lleol yn y ffordd orau.

Fel y nodais yn fy ateb blaenorol, yn wahanol i'r trefniadau mewn rhannau eraill o'r DU, cynlluniwyd y model Graddau a Bennir gan Ganolfan yng Nghymru, a'r broses apelio yn benodol, yn fwriadol i alluogi athrawon a darlithwyr i ymgymryd â'r rhan fwyaf o'u rôl yn ystod y tymor. Roedd hon yn ymdrech ymwybodol i gadw gwyliau'r haf yn glir, gan ein bod yn cydnabod bod y gwyliau yn gyfle pwysig i broffesiwn addysg Cymru gymryd seibiant haeddiannol a chyfnod o fyfyrio a pharatoi cyn y flwyddyn academaidd nesaf.

Diolch i chi eto am rannu’r adroddiad hwn a’r newyddion diweddaraf mewn perthynas â deiseb P-06-1228.

Yn gywir



**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language